



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Labelu ar gyfer Lles Anifeiliaid: Cais am Dystiolaeth

Medi 2021

Dyddiad: 13 - Medi 2021

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, a chefnogi'r diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf sydd gennym.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag oedd pan gawsom ef.



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn welfare.label@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb Gweithredol	5
Diffiniadau.....	6
Gair Amdanoch Chi neu Eich Sefydliad	7
Labelu ar gyfer Lles Anifeiliaid	9
Diffinio Safonau Lles	11
Dull Lladd	12
Dulliau Labelu	14
Fformat Label.....	16
Hyd a Lled ac Effaith Labelu	18
Cig, wyau a llaeth heb eu prosesu.....	19
Cynhyrchion wedi'u Prosesu ac wedi'u Rhagbecynnu.....	20
Bwyd wedi'i baratoi sy'n cael ei werthu drwy arlwyfaeth dorfol.....	23
Monitro a Gorfodi	25
Cyd-fynd â Diwygio Labelu Bwyd yn Ehangach.....	26
Ffynonellau:.....	28

Rhagair

Un o'r pethau cyntaf i mi ei wneud fel gweinidog oedd mynd â'r Mesur Amaethyddiaeth drwy'r Senedd. Erbyn hyn, mae Deddf Amaethyddiaeth 2020 wedi rhoi'r fframwaith deddfwriaethol i ni osod y sail ar gyfer polisi ffermio yn y dyfodol. Byddwn yn cefnogi ffermwyr i wella'r amgylchedd, gwella iechyd a lles anifeiliaid, a lleihau allyriadau carbon – gan gynhyrchu bwyd blasus o safon hefyd wrth gwrs.

Fel cenedl, rydym yn poeni'n fawr am les anifeiliaid ac yn gynyddol am safonau amgylcheddol. Mae gwybodaeth a labelu ar gyfer defnyddwyr yn rhan o'r pecyn sydd gennym i greu gwell system fwyd i bobl a'r blaned. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn fanwl gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Mae'n gyfnod cyffrous i'n sector bwyd-amaeth. Bydd ein cynlluniau amaethyddol newydd yn dechrau gwobrwyo ffermwyr am wella'r amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid. Gallai diwygio labelu a gwybodaeth i ddefnyddwyr ein galluogi i gysylltu ffermwyr yn well yn ein cynlluniau drwy'r gadwyn gyflenwi â defnyddwyr, gan gydnabod y darlun cyfan ar y fferm ac ysgogi'r galw am gynnyrch lles uchel sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a gwella proffidioldeb.

Rwyf hefyd am sicrhau bod ein diwygiadau labelu'n cefnogi ein polisi masnach drwy hyrwyddo buddiannau ein ffermwyr a'n cynhyrchwyr bwyd. Roedd ein maniffesto'n datgan yn glir iawn na fyddwn, ym mhob un o'n trafodaethau masnach, yn peryglu ein safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd, lles anifeiliaid a bwyd. Rwyf eisiau i ni sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng cynhyrchion sy'n cyrraedd safonau lles uchel y DU neu'n rhagori arnynt a'r rheini nad ydynt yn cyrraedd y safonau hynny.

Gwyddom fod y cyhoedd gan mwyaf o blaid i'r Llywodraeth osod safonau pellach i sicrhau mwy o gysondeb a dealltwriaeth o wybodaeth am les ar adeg prynu. Bydd hyn hefyd yn ystyriaeth allweddol yn ein Papur Gwyn ar y Strategaeth Fwyd, sef yr hyn rydym wedi ymrwymo i'w gyhoeddi o fewn chwe mis i gyhoeddi adolygiad diweddar Henry Dimpleby. Byddwn hefyd yn edrych ar ymyriadau ategol eraill yn y farchnad, gan gynnwys datgelu safonau lles yn orfodol.

Rhaid i unrhyw newidiadau a wnawn fod yn addas i'n busnesau bwyd-amaeth, ac rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau'n syml, yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, ac nad ydynt yn rhoi baich ychwanegol ar fusnesau o ran costau. Mae'n gyfle gwych i'n system fwyd, ac i'r diwydiant bwyd-amaeth yn ehangach. Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gam pwysig ochr yn ochr â'n hadolygiad eang o labelu bwyd ar gyfer Papur Gwyn y Strategaeth Fwyd. Gobeithio y gallwn ddefnyddio'r dystiolaeth hon i weithio gyda chi i ganfod unrhyw welliannau i labelu bwyd a gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n sicrhau'r canlyniadau lles ac amgylcheddol uchel rydym i gyd yn eu cefnogi.

Y Gwir Anrhydeddus Victoria Prentis AS

Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymgynghoriad 'Health and Harmony' yn 2018 wedi canfod bod 72% o'r bobl a ymatebodd wedi bod o blaid i'r Llywodraeth osod safonau pellach i sicrhau mwy o gysondeb a dealltwriaeth o wybodaeth am les ar adeg prynu.

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella safonau lles anifeiliaid fferm ymhellach, rydym yn chwilio am dystiolaeth o effeithiau gwahanol fathau o labelu. Bydd yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer unrhyw gynigion polisi yn y dyfodol ar labelu ar gyfer lles anifeiliaid.

Byddai dystiolaeth yn cael ei chroesawu'n arbennig ar yr effeithiau posibl ar fusnesau, a hefyd ar ba mor effeithiol yw labelu wrth ddylanwadu ar ymddygiad ffermwyr, busnesau a defnyddwyr. Gall fod ar ffurf data ystadegol, astudiaethau achos, adolygiadau llenyddiaeth, profiadau personol, adroddiadau a dogfennau, boed yn rhai newydd neu hanesyddol. Pryd bynnag y bo modd, rhowch gyfeirnodau llawn.

Gall unrhyw un ymateb i'r cais am dystiolaeth. Mae'r rheini sydd â diddordeb yn cynnwys:

- Y diwydiant bwyd, gan gynnwys y sectorau manwerthu, prosesu ac arlwyyo
- Ffermwyr da byw, cyrff diwydiant a sicrwydd ffermydd
- Y proffesiwn milfeddygol a gwyddonwyr lles
- Sefydliadau lles anifeiliaid
- Academyddion neu felinau trafod sy'n canolbwyntio ar bolisi bwyd, economeg neu ymddygiad defnyddwyr
- Sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr bwyd
- Cyrff y Llywodraeth, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gorfodi

Rydym yn chwilio am wybodaeth am labelu ar gyfer lles anifeiliaid yn y meysydd allweddol canlynol:

- Sut mae diffinio'r safonau lles sy'n sail i system labelu
- Sut gellid rheoleiddio labelu
- Sut gallai label edrych, gan gynnwys barn am enghreifftiau rhyngwladol
- Pa gynnyrch allai ddod o fewn hyd a lled unrhyw ddiwygio labelu, a'r effeithiau gwahaniaethol y gallai hyn eu cael
- Sut mae monitro a gorfodi labelu ar gyfer lles anifeiliaid

Cynhelir adolygiad ehangach o labelu bwyd fel rhan o Bapur Gwyn Strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU lle gallai fod angen ymgynghori â'r cyhoedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am rywfaint o dystiolaeth ragarweiniol ynghylch sut y gallai labelu ar gyfer

Iles anifeiliaid gyd-fynd â diwygiadau i labelu yn ehangach, gan gynnwys labelu maeth ac eco-labelu.

Mae hwn yn gais am dystiolaeth sy'n ymwneud â Chymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig. Mae Iles anifeiliaid a labelu bwyd wedi'u datganoli a byddwn yn trafod yr ymatebion i hyn gyda llywodraeth yr Alban.

Diffiniadau

Isod, ceir set o ddiffiniadau a ddefnyddir drwy gydol y Cais am Dystiolaeth. Defnyddiwyd diffiniadau cyfreithiol phan fo modd, gan gynnwys dolen at y testun cyfreithiol perthnasol. Mewn rhai achosion, rydym wedi diffinio termau ar gyfer y Cais hwn am Dystiolaeth yn unig er mwyn darparu eglurder ac er mwyn lleihau dehongliadau gwahanol o'r cwestiynau gymaint ag y bo modd. Nodir y diffiniadau hyn gan seren '*'. Petai unrhyw ddiwygiad i labelu'n cael eu cyflwyno, byddai angen i ni ddiffinio termau o'r fath yn y gyfraith, a byddem yn disgwyl ymgysylltu ymhellach ar hyn.

- ***Rheoliadau Iles sylfaenol y DU:** Mae'r safonau uchel ar gyfer Iles anifeiliaid wedi'u nodi yn neddfwriaeth y DU, sy'n ymwneud â Iles anifeiliaid ar y fferm, wrth eu cludo a'u lladd, neu mewn mannau eraill. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:
 - [Deddf Iles Anifeiliaid 2006](#) a [Deddf Iles Anifeiliaid Gogledd Iwerddon \(2011\)](#)
 - Rheoliadau Iles Anifeiliaid a Ffermir ar gyfer [Lloegr \(2007\)](#), [Cymru \(2007\)](#) a [Gogledd Iwerddon \(2012\)](#)
 - Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) ar gyfer [Lloegr \(2007\)](#), [Cymru \(2007\)](#) a [Rheoliadau Iles Anifeiliaid \(Gweithdrefnau a Ganiateir gan Bersonau Lleyg\) \(Gogledd Iwerddon\) \(2012\)](#).
 - Rheoliadau Iles ar adeg Lladd ar gyfer [Lloegr \(2015\)](#), [Cymru \(2014\)](#) a [Gogledd Iwerddon \(2014\)](#).
- ***Lles Uwch:** mynd y tu hwnt i reoliadau Iles sylfaenol y DU
- ***Cynnyrch sylfaenol y DU:** y rhai sy'n cael eu cynhyrchu'n ddomestig neu'n cael eu mewnfario ac sy'n bodloni ein rheoliadau Iles sylfaenol yn y DU
- ***Cynnyrch Iles uwch:** y rhai sy'n cael eu cynhyrchu neu'n cael eu mewnfario'n ddomestig ac sy'n mynd y tu hwnt i'n rheoliadau Iles sylfaenol yn y DU
- ***Mewnforion Iles is:** yr is-set o fewnforion nad ydynt yn bodloni ein rheoliadau Iles sylfaenol yn y DU
- ***Cig, Ilysiau a Ilaeth:** unrhyw sylwedd sy'n deillio o anifail ac wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl (Mae diffiniadau llawn ar gael yn [Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol 853/2004](#))
- **Cynnyrch heb eu prosesu:** rhai nad ydynt wedi'u newid yn sylweddol o gyflwr cychwynol; mae'r categori hwn yn cynnwys cynhyrchion sydd wedi'u rhewi, eu briwio neu wedi'u haddasu fel arall heb ychwanegu cynhwysyn arall (diffiniad: [Rheoliad Hylendid 852/2004](#))

- **Cynnyrch wedi'u prosesu:** y rheini sydd wedi'u newid yn sylweddol o gyflwr cychwynnol drwy ychwanegu cynhwysyn neu gynhwysion eraill, e.e. cigoedd wedi'u halltu neu brydau parod (diffiniad: [Rheoliad Hylendid 852/2004](#))
- ***Cynnyrch wedi'u prosesu'n artiffisial:** cynhyrchion wedi'u prosesu ac sydd â chynhwysyn pwysig sy'n nodweddiadol o'r bwyd, gyda chynhwysion ychwanegol cyfyngedig sy'n ffurfio lleiafrif y bwyd, e.e. menyn
- **Prif gynhwysyn:** cynhwysyn neu gynhwysion bwyd sy'n cynrychioli mwy na 50% o'r bwyd hwnnw neu sydd fel arfer yn gysylltiedig ag enw'r bwyd gan y defnyddiwr ac y mae angen arwydd meintiol ar ei gyfer yn y rhan fwyaf o achosion, e.e. cig oen mewn pastai'r bugail (diffiniad: [Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr 1169/2011](#))
- ***Y prif gynhwysyn:** y prif gynhwysyn sy'n ffurfio'r gyfran fwyaf o'r bwyd hwnnw, e.e. llaeth mewn menyn, ac fel arfer mae'n cynrychioli dros 50% o'r bwyd hwnnw
- ***Cynhwysyn eilaidd:** unrhyw gynhwysyn neu gynhwysion bwyd nad ydynt yn brif gynhwysion ac nad oes angen arwydd meintiol ar eu cyfer, e.e. wy mewn cacen
- **Arlwywr torfol:** unrhyw sefydliad (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol), fel bwytai, ffreuturau, ysgolion, ysbytai a mentrau arlwyio lle mae bwyd, yng nghwrs busnes, yn cael ei baratoi i fod yn barod i'w fwyta gan y defnyddiwr terfynol (diffiniad: [Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr 1169/2011](#))
- **Gwybodaeth am fwyd:** gwybodaeth ynghylch bwyd ac a ddarperir i'r defnyddiwr terfynol olaf drwy gyfrwng label, deunydd arall sy'n cyd-fynd ag ef, neu unrhyw ddull arall gan gynnwys offer technoleg fodern neu gyfathrebu llafar (diffiniad: [Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr 1169/2011](#))
- **Labelu:** unrhyw wybodaeth am fwyd, yn ysgrifenedig neu'n ddarluniadol, gan gynnwys rhai ar becynnau, silff, ar-lein neu ar fwydlen, neu sydd fel arall yn dod gyda chynnyrch (diffiniad: [Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr 1169/2011](#))
- **Safonau marchnata:** cyfres o ofynion wedi'u diffinio'n gyfreithiol sy'n llywodraethu'r gwaith o gynhyrchu, hyrwyddo a gwerthu cynhyrchion penodol, gan gynnwys wyau a chig eidion (diffiniad: [Deddf Amaethyddiaeth 2020 a Rheoliad yr UE 1308/2013](#))
- ***Termau marchnata:** geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir i hyrwyddo cynnyrch, ac nad ydynt wedi'u diffinio'n gyfreithiol nac wedi'u hardystio fel arall, e.e. wedi'u bwydo ar laswellt

Gair Amdanoch Chi neu Eich Sefydliad

Cwestiwn 1: Beth yw eich enw?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 2: Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 3: Ydych chi am i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (gofynnol)

Ydw -- Nac ydw

Os Ydw, rhowch eich rheswm

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 4: Ydych chi'n ymateb fel sefydliad neu unigolyn?

Sefydliad -- Unigolyn

Cwestiwn 5: Pa un o'r dewisiadau isod sy'n eich disgrifio chi orau?

ffermwr – rhan o'r diwydiant bwyd – milfeddyg -- academydd - aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb -- arall

Cwestiwn 6: Rhowch grynodedb o pam eich bod wedi dewis ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, ac unrhyw arbenigedd perthnasol sydd gennych

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 7: Ble rydych chi wedi'ch lleoli yn y DU?

Lloegr – Yr Alban -- Cymru -- Gogledd Iwerddon -- Ddim wedi'ch lleoli yn y DU (rhowch fanylion)

Cwestiwn 8: Rhowch enw eich sefydliad (dewisol):

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 9: Rhowch grynodedb o'r hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud a, phan fo'n berthnasol, gyda phwy yr ydych chi wedi ymgynghori i lunio eich ymateb

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 10: Ble mae eich sefydliad yn gweithredu? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Lloegr – Yr Alban -- Cymru -- Gogledd Iwerddon -- Y tu allan i'r DU (rhowch fanylion)

Cwestiwn 11: Ble mae pencadlys eich sefydliad?

Lloegr – Yr Alban -- Cymru -- Gogledd Iwerddon -- Y tu allan i'r DU (rhowch fanylion)

Cwestiwn 12: Ar ran pa fath o sefydliad rydych chi'n ymateb?

Corff llywodraethol -- Corff anlywodraethol (NGO) -- Awdurdod lleol - Elusen - Ymgynghoriaeth -- Busnes bach neu ficro (llai na 50 o weithwyr) - Busnes canolig (50 – 249 o weithwyr) - Busnes mawr (250 neu fwy o gyflogeion) - Cymdeithas diwydiant - Sefydliadau Academaidd - Arall

Os ateboch chi Arall, nodwch eich math o sefydliad.

Cwestiwn 13: Ydy eich busnes yn cael gafael ar / gwerthu cynnyrch amaethyddol neu fwyd?

Ydy, fel ei brif weithgaredd – Ydy, ond fel gweithgaredd eilaidd yn unig -- Nac ydy

Cwestiwn 14: Beth yw prif bwrpas eich busnes?

Cynhyrchu Sylfaenol - Gweithgynhyrchu - Cyfanwerthu - Manwerthu - Arlwyo torfol - B2C (e.e. bwytai, gwestai, tecawê) - Arlwyo torfol - B2B (e.e. arlwywyr contract) - - Arall (rhowch fanylion)

Cwestiwn 15: Rhowch eich cod 5-digid [Dosbarthiad Diwydiannol Safonol](#):

Blwch testun

Labelu ar gyfer Lles Anifeiliaid

Y sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd, dim ond i lond llaw o gynhyrchion bwyd y mae rheoliadau labelu ar gyfer lles anifeiliaid yn berthnasol. Mae dau safon marchnata'n diffinio'r dull cynhyrchu ar gyfer [wyau yn eu plisgyn](#) (gorfodol) - gyda label 'safon y tu allan i'r DU/UE' ar gyfer mewnfiorion nad ydynt yn cyrraedd y rhain - a [chig dofednod heb ei brosesu](#) (gwirfoddol). Nid yw hyn yn cynnwys cig eidion, cig oen, porc na chynnyrch llaeth nac ychwaith gynhyrchion wedi'u prosesu na'r rheini sy'n cael eu gwerthu drwy arlwyo torfol. Gallai'r rheini fod yn fwy tebygol o gynnwys cynhwysion wedi'u mewnfiorio ac nad ydynt yn bodloni rheoliadau lles sylfaenol y DU.

Mae amrywiaeth o gynlluniau labelu gwirfoddol dan arweiniad y diwydiant – fel cynlluniau sicrwydd, safonau penodol i archfarchnadoedd, a thelerau marchnata heb eu rheoleiddio – wedi llenwi rhai o'r bylchau hyn. Mae cynlluniau sicrwydd ffermydd y DU, fel y Tractor Coch a RSPCA Assured, yn adnabyddus. Maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynhyrchu cig, wyau a llaeth yn ddomestig, gan alluogi defnyddwyr i ganfod pa gynnyrch o'r DU sy'n bodloni ein rheoliadau lles sylfaenol neu'n mynd y tu hwnt iddynt. Fodd bynnag, maent yn rhoi pwysigrwydd amrywiol ar les ac nid ydynt yn cynnwys mewnfiorion na phob cynnyrch. Mewn llawer o achosion, ni ddarperir unrhyw wybodaeth am les anifeiliaid.

Pam rydym yn ystyried diwygio?

Defnyddwyr: Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y DU (98%¹) yn gwerthfawrogi lles anifeiliaid ond nid yw hyn bob amser yn troi'n benderfyniadau prynu. Gelwir hyn yn fwllch gwerth-gweithredu ac mae'n cael ei yrru gan amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau bwyd. Rydym wedi nodi nifer o ffactorau a allai ei gwneud hi'n anodd i

ddefnyddwyr ddewis cynnyrch sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd lles; hoffem gael rhagor o dystiolaeth i ddeall hyn:

- **Hygyrchedd:** Heb ffordd syml safonol o labelu lles anifeiliaid, nid yw'n hawdd i ddefnyddwyr ddewis bwyd sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd lles. Mae nifer o gynlluniau labelu gwirfoddol dan arweiniad y diwydiant a all ddefnyddio iaith neu ddelweddaeth anghyson, felly gall y rhain fod yn ddryslyd neu'n anodd i ddefnyddwyr eu deall. Mae llawer o gynhyrchion heb labeli sy'n dangos lles anifeiliaid. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cyfyngu ar dryloywder i ddefnyddwyr.
- **Argaeledd:** Mae archfarchnadoedd yn tueddu i gynnig dewisiadau lles uwch yn unig ar gyfer cig, llaeth ac wyau heb eu prosesu a dim ond hyn a hyn o le sydd ar gael ar gyfer cynhyrchion wedi'u prosesu, fel prydau parod ac yn y sector arlwy. Hefyd, mae'n bosibl na fydd cynnyrch lles uwch yn cael eu stocio ym mhob siop, yn enwedig mewn siopau hwylus.
- **Fforddiadwyedd:** Mae 72%¹ o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn fodlon talu mwy – rhwng 20-30% yn ychwanegol² – am gynnyrch lles uwch. Fodd bynnag, gall y rhain fod yn ddрутach o lawer. Er enghraifft, mae cyw iâr maes, ar gyfartaledd, yn costio 115%³ yn fwy y kg, ac ni ellir egluro hyn yn gyfan gwbl gan gostau cynhyrchu uwch.

Y Diwydiant Bwyd a Ffermwyr: Ar hyn o bryd, nid oes ffordd glir a chyson o wahaniaethu rhwng cynhyrchion – wedi'u cynhyrchu neu eu mewnfario'n ddomestig – sy'n bodloni neu'n rhagori ar reoliadau lles sylfaenol y DU oddi wrth y rheini nad ydynt yn bodloni'r rheoliadau. Felly, mae'n bosibl y bydd mewnfario'n les is yn llawer rhatach na'r hyn a gynhyrchir gan ffermwyr y DU ac efallai na fyddant yn gallu cynnal gwerth eu cynnyrch sy'n bodloni rheoliadau lles sylfaenol y DU. Efallai na fydd ffermwyr sy'n dewis systemau lles uwch yn cael premiwm am gynhyrchion o'r fath. Mae hyn yn dibynnu ar a yw prosesydd bwyd, manwerthwr neu arlwywr yn dewis gosod safonau lles penodol ar gyfer y bwyd y maent yn ei brynu a sut neu a ydynt yn dewis ei gynnwys ar label. Mae diffyg termau cyson yn golygu nad yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng cynhyrchion sy'n seiliedig ar les anifeiliaid, felly gall y diwydiant ddibynnu ar ffyrdd eraill o wahaniaethu rhwng eu cynnyrch fel blas, ansawdd, pecynnu premiwm a brandio. O ganlyniad, nid oes cymhelliant clir bob amser i fusnesau hyrwyddo'r cynhyrchion hyn nac i ffermwyr eu cynhyrchu iddynt.

Felly, rydym yn edrych sut y gall ymyriadau yn y farchnad, gan gynnwys labelu, wneud y canlynol:

- Cefnogi ffermwyr i fodloni neu ragori ar reoliadau lles sylfaenol y DU drwy sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad
- Gwellu lles anifeiliaid drwy ddatgloi'r galw na fanteisiwyd arno yn y farchnad am fwy o gynnyrch lles
- Sicrhau bod cynnyrch sylfaenol a lles uwch y DU yn hygyrch, ar gael ac yn fforddiadwy fel ei bod yn hawdd i ddefnyddwyr ddewis cynnyrch bwyd sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd

Cwestiwn 16: Pa rwystrau sy'n wynebu defnyddwyr sy'n dymuno prynu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn unol â lles sylfaenol neu uwch yn y DU? Rhowch dystiolaeth ategol ar y ffactorau sy'n sbarduno'r bwlch gwerth-gweithredu.

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 17: A ddylai llywodraeth y DU ddiwygio labelu i sicrhau mwy o gysondeb a dealltwriaeth o wybodaeth am les anifeiliaid wrth brynu?

Dylai -- Dylai, ar yr amod nad yw'n rhoi baich afresymol ar ffermwyr a'r diwydiant bwyd -- Efallai mewn rhai ardaloedd -- Na, dylai fod yn fater i fanwerthwyr a defnyddwyr -- Arall (rhowch fanylion)

Pam?

Blwch testun rhydd

Diffinio Safonau Lles

Mae gan y DU rai o'r safonau lles uchaf yn y byd. Mae'r rheoliadau presennol yn nodi safonau lles sylfaenol y DU, megis Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir ar gyfer [Lloegr](#), [Cymru](#) a [Gogledd Iwerddon](#) (mae rhestr lawnach o'r rheoliadau perthnasol ar gael dan 'Diffiniadau'). Byddai angen i unrhyw ofynion labelu gael eu hategu gan set o safonau lles y cytunwyd arnynt ac sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o les ar gyfer pob rhywogaeth, gan gyfeirio at sut mae'r rhain yn bodloni, yn rhagori ar neu'n disgyn islaw rheoliadau lles sylfaenol y DU yn ogystal â safonau rhyngwladol, megis y rhai a ddatblygwyd gan yr [OIE](#). Mae amryw o ffyrdd posibl o osod safonau lles anifeiliaid y gellid eu defnyddio ar gyfer labelu. Gellid gosod y safonau lles ar sail:

- Mewnbynnau, sy'n dangos y dull cynhyrchu, fel mynediad at yr awyr agored a chyfoethogi amgylcheddol. Un enghraifft yw'r rheoleiddiad sy'n bodoli eisoes ar gyfer wyau ac sy'n nodi'r safonau ar gyfer e.e. system 'wyau maes'
- Canlyniadau: h.y. mesurau iechyd a lles ar y fferm, megis pa mor gyffredin yw clefydau neu fynegiant o ymddygiad naturiol.
- Cyfuniad o'r ddau, gyda safonau lles yn adlewyrchu gwahanol ganlyniadau lles a systemau cynhyrchu.

Gwyddom fod lles yn gallu amrywio o fewn pob dull cynhyrchu, oherwydd ffactorau fel sut mae'r ffermwr yn trin ei anifeiliaid. Felly, mae gennym ddiddordeb mewn sut y gellid cynnwys canlyniadau mewn safonau lles sy'n goresgyn rhywstrau fel diffyg data lles a gesglir gan ffermwyr, rhywfaint o gonsensws ynghylch diffinio 'lles uchel' ac anhawster mesur rhai canlyniadau lles. Un opsiwn posibl fyddai diffinio haenau lles yn gyntaf (e.e. Gradd A i E) yn seiliedig ar ddull cynhyrchu ac yna ymgorffori canlyniadau wrth i rai o'r

rhwystrau gael eu goresgyn. Hoffem hefyd ddeall unrhyw oblygiadau i'r cadwyni cyflenwi oherwydd gallai canlyniadau lles fferm benodol newid pob cylch cynhyrchu.

Cwestiwn 18: Sut y gellid datblygu set o safonau lles, gan ddiffinio gwahanol lefelau o les ar gyfer anifail, yn seiliedig ar fewnbnw? Beth yw'r prif ystyriaethau? Efallai yr hoffech gyfeirio at rywogaethau penodol y mae gennych ddiddordeb penodol ynddynt.

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 19: Sut gellid ymgorffori canlyniadau lles mewn set o safonau lles y gellir eu defnyddio wedyn ar gyfer label? Efallai yr hoffech gyfeirio at rywogaethau penodol y mae gennych ddiddordeb penodol ynddynt.

Blwch testun rhydd

Petai rheoliadau labelu newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer lles anifeiliaid, byddai angen i'r safonau lles bennu'r cyfnod o amser y maent yn berthnasol ar ei gyfer. Er enghraifft, mae'r Tractor Coch yn rhoi sicrwydd ar gyfer gwartheg cig eidion (sydd fel arfer yn cael eu lladd ar ôl 12-24 mis) os ydynt wedi treulio o leiaf 90 diwrnod ar fferm â sicrwydd, tra bo Quality Meat Scotland yn rhoi sicrwydd am oes. Mae rhai sectorau da byw yn gwahanu'r broses o fridio, magu a chynhyrchu. Felly, gellid cymhwyso safonau lles hefyd i ddiadelloedd neu fuchesi bridio er mwyn bod yn dryloyw ynghylch lles rhieni anifail.

Cwestiwn 20: Beth fyddai angen inni ei ystyried pe baem yn datblygu set o safonau lles sy'n cwmpasu oes gyfan yr anifail, gan gynnwys lladd a chludo, a'i rienni? Efallai yr hoffech gyfeirio at rywogaethau penodol y mae gennych ddiddordeb penodol ynddynt.

Blwch testun rhydd

Mae'r rheoliadau labelu presennol ar gyfer [cig dofednod heb ei brosesu](#) a [wyau yn eu plisgyn](#), sydd wedi'u cadw o gyfraith yr UE, yn gosod set o safonau lles sy'n seiliedig ar y dull cynhyrchu.

Cwestiwn 21: A ddylai Llywodraeth y DU ddiweddarau'r safonau lles a nodir yn y safonau marchnata presennol ar gyfer cig dofednod ac wyau yn eu plisgyn? Os felly, sut?

Blwch testun rhydd

Dull Lladd

Mae deddfwriaeth yn mynnu, pan gaiff anifeiliaid eu lladd, eu bod yn cael eu lladd yn ddyngarol ac nad ydynt yn profi poen, trallod na dioddefaint y gellir eu hosgoi. Yn

gyffredinol, rhaid i anifeiliaid gael eu stynio fel eu bod yn anymwybodol ac nad ydynt yn gallu teimlo poen ar adeg eu lladd.

Nodir y dulliau stynio ar gyfer lladd gwahanol rywogaethau yn Atodiad I o Reoliad 1099/2009 y CE a ddargedwir ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd. Mae dulliau stynio ar gyfer lladd anifeiliaid yn cynnwys dyfeisiau bolltau caeth, dryll gyda bwledi, stynio trydanol, baddon dŵr trydanol i ddofednod a stynio â nwy.

Yr unig eithriad i'r rheol bod yn rhaid stynio anifeiliaid cyn eu lladd yw pan fo'r lladd yn digwydd ar gyfer Iddewon a Mwslemiaid yn unol â defodau crefyddol. Mae'r holl gig Kosher a rhywfaint, ond nid y cyfan, o gig Halal yn dod o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu stynio cyn eu lladd. Byddai'n well gan y Llywodraeth petai pob anifail gael ei stynio cyn ei ladd ond mae hefyd yn parchu hawliau Iddewon a Mwslemiaid i fwyta cig a baratowyd yn unol â'u credoau; mae hwn yn fater sylfaenol o gred a rhyddid crefyddol. Mae'r rhanddirymiad ar gyfer cigyddda crefyddol wedi'i nodi yn Rheoliadau Lles Anifeiliaid ar Adeg eu Lladd (Lloegr) 2015 a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn nodi cyfyngiadau llym ar sut, ble a chan bwy y mae'n rhaid cigyddda yn unol â defodau crefyddol.

Y tu hwnt i'r gofyniad i beidio â charmarwain defnyddwyr, nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol yn ymwneud â gwerthu a labelu cig o ran dull lladd. Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o gig sy'n cael ei gynhyrchu yn unol â chredoau crefyddol yn cael ei labelu'n wirfoddol fel Halal neu Kosher, ond nid yw'r holl gig sy'n cael ei gynhyrchu drwy dulliau nad ydynt yn stynio yn cael ei labelu felly. Codwyd cwestiynau gan gymdeithasau lles anifeiliaid, milfeddygol a seciwlar ynghylch cig o anifeiliaid sy'n cael eu lladd heb stynio ac sy'n cael ei werthu i ddefnyddwyr nad ydynt am i'w cig ddod o anifeiliaid sy'n cael eu lladd fel hyn. Er enghraifft, nid yw rhai grwpiau crefyddol, megis Sikhiaid, yn cael bwyta cig o anifeiliaid sydd wedi'u lladd yn unol â defodau crefyddol. Cafwyd galwadau i gig o anifeiliaid nad ydynt wedi'u stynio cyn eu lladd gael eu labelu er mwyn gwella tryloywder i ddefnyddwyr a galluogi defnyddwyr i wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Cwestiwn 22: A ydych yn credu y dylid labelu cynhyrchion sy'n cynnwys cig er mwyn dangos i ddefnyddwyr beth oedd y dull o'u lladd?

Ydw, fel label gorfodol – Ydw, drwy labelu gwirfoddol, gyda'r derminoleg wedi'i diffinio mewn cyfraith – Efallai, ond dylai hyn fod yn ôl disgresiwn y busnes – Na

Pam? Rhowch dystiolaeth ategol

Blwch testun rhydd

Gellid darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am y ffordd y lladdwyd anifail fel rhan o ddiwygiadau ehangach i labelu lles, e.e. fel rhan o safon wedi'i diffinio sy'n ymdrin â bywyd yr anifail a'i farwolaeth, neu fel label annibynnol sy'n disgrifio'r dull o'i ladd yn unig. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys a fyddai defnyddwyr eisiau cyfeiriad at y dull lladd yn benodol ar label, nifer y labeli ac a oes galw am gig lles uwch nad yw wedi'i stynio.

Cwestiwn 23: Petai Llywodraeth y DU yn cyflwyno rheoliadau gorfodol neu wirfoddol ar gyfer labelu lladd, a ddylai hyn fod:

- a) Fel rhan o set ehangach o safonau lles anifeiliaid pan fo'r label yn nodi lles oes gyfan yr anifail
- b) Fel label ar wahân sy'n ymwneud â'r dull lladd yn unig

Pam? Rhowch dystiolaeth ategol

Blwch testun rhydd

Dulliau Labelu

Gallai labelu ar gyfer lles anifeiliaid gynnwys:

1. **Gorfodol** – pan fyddai'n rhaid labelu cynhyrchion bwyd, sydd wedi'u cynhyrchu'n ddomestig ac wedi'u mewnfario, i ddangos y safon lles y cafodd yr anifail ei gynhyrchu'n unol â hi. Byddai hyn yn seiliedig ar set o safonau lles anifeiliaid sy'n diffinio gwahanol lefelau o les anifeiliaid yn y gyfraith.
2. **Gwirfoddol, ond wedi'i ddiffinio yn y gyfraith** – pan fyddai set o safonau lles anifeiliaid yn diffinio gwahanol lefelau o les anifeiliaid yn y gyfraith. Er na fyddai'r rhain yn orfodol i'w defnyddio ar label, pe baent yn cael eu defnyddio ar gynnyrch bwyd, byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r diffiniad cyfreithiol safonol. Ni fyddai'n rhaid i fusnesau labelu cynhyrchion wedi'u mewnfario nad ydynt yn bodloni rheoliadau lles sylfaenol y DU.
3. **Dan arweiniad diwydiant** – pan fo'r diwydiant yn datblygu, yn ehangu ac yn mireinio ei gynlluniau labelu gwirfoddol ei hun, fel cynlluniau sicrwydd ffermydd yn y DU neu safonau sy'n benodol i archfarchnadoedd. Nid yw cynlluniau sicrwydd fferm presennol y DU yn cynnwys mewnfario nac yn darparu label lles safonol y gellir ei gymharu.

Cwestiwn 24: Pa fath o labelu allai fod fwyaf effeithiol am wneud y canlynol:

- a. Cefnogi ffermwyr i fodloni neu ragori ar reoliadau lles sylfaenol y DU drwy sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad
- b. Gwella lles anifeiliaid drwy ddatgloi'r galw na fanteisiwyd arno yn y farchnad am fwy o gynnyrch lles
- c. Sicrhau bod cynnyrch lles sylfaenol a lles uwch y DU yn hygyrch, ar gael ac yn fforddiadwy fel ei bod yn hawdd i ddefnyddwyr ddewis cynnyrch bwyd sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd?

Gorfodol – Gwirfoddol, ond wedi'i ddiffinio yn y gyfraith – Dan arweiniad y diwydiant

Pam? Rhowch dystiolaeth ategol

Blwch testun rhydd (pob un ar gyfer a, b, c)

Mae 98%¹ o ddefnyddwyr y DU yn gwerthfawrogi lles anifeiliaid ac mae 94%⁴ eisiau i'n safonau gael eu cynnal mewn cytundebau masnach. Felly, rydym yn edrych ar y rôl y gallai labelu ei chwarae wrth gefnogi hyn, gan gynnwys drwy alluogi defnyddwyr i nodi safonau lles anifeiliaid bwyd sydd wedi'i fewnforio. Mae tystiolaeth⁵ yn dangos bod defnyddwyr weithiau'n defnyddio gwlad tarddiad fel procsi ar gyfer safonau lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn cael ei bwysu a'i fesur yn erbyn dimensiynau lluosog o ran ansawdd, cymwysterau amgylcheddol a safbwyntiau gwleidyddol gwlad benodol, yn hytrach na'r cynnyrch ei hun. Gallai label wahaniaethu rhwng cig, wyau a llaeth sydd wedi'i fewnforio ac sy'n bodloni neu'n rhagori ar ein rheoliadau lles sylfaenol yn y DU a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Byddai angen i hyn fod yn orfodol er mwyn sicrhau bod mewnfurion â lles is yn cael eu labelu. Er enghraifft, mae'r rheoliadau gorfodol presennol ar gyfer labelu wyau yn mynnu bod unrhyw wyau yn eu plisgyn sy'n cael eu mewnfurion ac sy'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio cewyll batri yn cael eu nodi fel rhai nad ydynt yn safonol yn y DU/UE. Gallai unrhyw label o'r fath hefyd gefnogi masnachu mewnfurion lles sylfaenol neu uwch yn y DU, a byddai angen iddo gydymffurfio â chyfraith a rheoliadau masnach ryngwladol. Er nad yw hyn yn atal mewnfurion nad ydynt yn bodloni ein rheoliadau lles sylfaenol yn y DU rhag dod i mewn i'r wlad a chael eu gwerthu, gallai hyn annog y diwydiant i newid amrediad eu cynnyrch. Yn ogystal â bod yn berthnasol i fewnfurion yn y dyfodol o dan gytundebau masnach newydd, gallai labelu helpu defnyddwyr i gael eglurhad o safonau lles bwyd sydd eisoes yn ein marchnad. Er enghraifft, mae 65%⁶ o'r porc sy'n cael ei fwyta yn y DU yn cael ei fewnforio o'r UE. Er bod caetsys hychod wedi'u gwahardd yn y DU, dim ond yn rhannol y maent wedi'u cyfyngu o dan gyfraith yr UE. Yn ddiweddar, mae'r UE wedi ymrwymo i gyflwyno labeli safonol ar gyfer lles anifeiliaid ar draws yr holl aelod-wladwriaethau.

Cwestiwn 25: I ba raddau yr ydych yn cefnogi'r egwyddor o labelu gorfodol i nodi pryd nad yw cig, wyau a llaeth a fewnforir yn bodloni rheoliadau lles sylfaenol y DU?

Cefnogi'n gryf -- Cefnogi'n rhannol, Niwtral -- Gwrthwynebu'n rhannol -- Gwrthwynebu'n gryf

Pam?

Blwch testun rhydd

***Cwestiwn 26: Pa benderfyniadau busnes y byddai ffermwyr a busnesau bwyd yn debygol o'u gwneud i ymateb i gyflwyno labelu gorfodol ar gyfer lles anifeiliaid?** Er enghraifft, o ran beth maen nhw'n ei dyfu, sut maen nhw'n dod o hyd i gynhwysion, amrediad eu cynnyrch, prisiau a sut maen nhw'n marchnata i gwsmeriaid.

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 27: Sut byddai'r penderfyniadau busnes hyn yn effeithio ar hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd cynnyrch sylfaenol y DU a chynnyrch lles uwch?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 28: Sut byddai'r penderfyniadau busnes hyn yn wahanol pe bai'r rheoliadau a gyflwynwyd yn wirfoddol yn unig ond gyda'r safon lles wedi'i diffinio yn y gyfraith?


Blwch testun rhydd

Fformat Label

Mae sawl ffordd y gellir cyflwyno gwybodaeth am les ar label, ac mae'n bosibl y bydd dolenni/codau QR yn cyd-fynd â'r rhain i roi rhagor o wybodaeth. Hoffem gael eich barn ar ba un a allai fod fwyaf addas pe baem yn cyflwyno rheoliadau labelu newydd: o safbwynt defnyddwyr, o ran ei gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr gymharu gwahanol safonau lles a darparu lefel briodol o dryloywder; ac o safbwynt ffermwyr, o ran y gallu i osod safonau lles sy'n hyblyg ac yn addasadwy i gyd-fynd ag amrywiaeth o systemau cynhyrchu. Gallai label gyflwyno gwybodaeth am les mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys:

- **Haenog:** System sgorio sy'n nodi lefelau lles anifeiliaid perthynol ar gynhyrchion da byw ar gyfer pob sector yn erbyn set o feini prawf, e.e. gradd A-E, sydd â'r hyblygrwydd i gael ei ddiweddarau heb orfod newid y label
- **Disgrifiadol:** Disgrifiad byr sy'n cyfeirio at y modd y cafodd yr anifail ei fagu, ei gynhyrchu neu ei baratoi, e.e. 'maes', wedi'i ategu gan fanylebau manylach.
- **Logo ardystiad:** Label â logo brand arno sy'n dangos bod cynnyrch yn bodloni set benodol o safonau lles a bennir gan gynllun ardystio (un lefel yn hytrach na gwahanol lefelau fel arfer).

Dyma rai enghreifftiau o labeli o gynlluniau sicrwydd rhyngwladol:

	A – Etiquette Bien-Être Animal	B – American Humane Certified	C – Beter Leven	D – Haltungsform	E – CIWF Italia/Legambiente
Nodwedd label					

Fformat label – haenog neu ddisgrifiedig	Y ddau	Dim un (logo ardystiad ar gyfer bodloni un safon lles benodol)	Haenog	Y ddau	Y ddau
Manylion ar gyfer fformat haenog	Lliwiau, gradd A-E, disgrifiadau cymharol 'da, eithaf da, safonol'	Amh.	3 seren	Rhifau gyda lliwiau gwahanol	Rhifau gyda lliwiau gwahanol
Manylion ar gyfer fformat disgrifiadol (dull cynhyrchu)	Disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol, er enghraifft, Parcours arboré = coetiroedd	Amh.	Amh.	Disgrifiad ysgrifenedig, er enghraifft Stallhaltung plus = cartrefi dan do a mwy	Disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol, er enghraifft Pascolo 4 mesi = Mynediad at dir pori am 4-mis
Ar gyfer cynnyrch sydd â'r safonau lles isaf (sef y llinell sylfaen gyfreithiol fel arfer)	Oes (E - lleiaf)	Na	Na (dim label os na roddir o leiaf 1 seren)	Oes (wedi cael 1 os yw wedi'i ardystio ar gyfer diogelwch bwyd ¹ ond heb fod yn uwch o lawer na'r safonau lles sylfaenol)	Oes (cynigir label i ddangos dull 'ddwys' o gynhyrchu)

Cwestiwn 29: Pa un o'r fformatau label canlynol sydd fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

1. Labeli sy'n dangos haenau yn unig (Beter Leven)?
2. Labeli sy'n dangos y ddwy haen a'r disgrifiadau o'r dull cynhyrchu (Etiquette Bien- Être Animal, Haltungsform, CIWF Italia/Legambiente)?
3. Labeli sy'n disgrifio'r dull cynhyrchu yn unig?
4. Labeli sydd â logo ardystiad yn unig (American Humane Certified)?

Cwestiwn 30: Ar gyfer y labeli sydd â haeniad, pa rai o'r canlynol sydd fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

1. Etiquette Bien-Être (Lliwiau graddedig, gradd A-E, disgrifiadau cymharol 'da, eithaf da, safonol')
2. Beter Leven (3 seren)
3. Haltungsform, CIWF Italia/Legambiente (Rhifau gyda lliwiau gwahanol)

Cwestiwn 31: Ar gyfer y labeli sydd â disgrifiad o'r dull cynhyrchu, pa rai o'r canlynol sydd fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

1. Labeli gyda disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol (Etiquette Bien-Être, CIWF Italia/Legambiente)?
2. Labeli gyda disgrifiad ysgrifenedig yn unig (Haltungsform)?

Cwestiwn 32: Yn gyffredinol, pa un o'r pum label sydd fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

Etiquette Bien-Être – American Humane Certified – Beter Leven – Haltungsform -- CIWF Italia/Legambiente

Pam?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 33: A fydddech gystal â dweud wrthym beth yw eich barn am unrhyw labeli domestig neu ryngwladol sy'n dangos lles anifeiliaid. Efallai yr hoffech gynnwys enghreifftiau penodol i dynnu sylw at nodweddion penodol yr ydych yn eu hoffi, neu nad ydych yn eu hoffi.

Testun rhydd

Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych am effaith ac effeithiolrwydd cynlluniau sicrwydd presennol neu reoliadau labelu (domestig a rhyngwladol).

Hyd a Lled ac Effaith Labelu

Hoffem ddeall yn well faint o'r **prif gyfaint cynhyrchu (kg neu %)** o gig (eidion, dofednod, cig oen, porc), wyau a chynnyrch llaeth sy'n cael eu gwerthu **drwy'r canlynol**:

- Manwerthu (e.e. archfarchnadoedd, siopau hwylus) fel:
 - Cynnyrch heb ei brosesu (e.e. brest cyw iâr amrwd, llaeth)
 - Cynhwysyn mewn cynnyrch wedi'i brosesu, os yw'n bosibl, wedi'i rannu'n:
 - Brif gynhwysion (e.e. porc mewn selsig)
 - Cynhwysion eilaidd (e.e. wy mewn cacen sbwng)

- Arlwyfaeth, os yw'n bosibl, wedi'i rannu'n:
 - Arlwyo preifat (e.e. bwytai, gwestai)
 - Arlwyo cyhoeddus (e.e. ysgolion ac ysbytai)

Hoffem hefyd ddeall gyfran gymharol y cynhyrchiant domestig o'i gymharu â mewforion ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.

Cwestiwn 34: A fydddech cystal â rhoi unrhyw ddata perthnasol sydd gennych ar gael, gan gynnwys ffynonellau. Rydym yn gwerthfawrogi na fydd eich data o bosibl yn cyd-fynd yn berffaith â'r categorïau uchod, ond byddem yn gwerthfawrogi'r agosaf sydd ar gael. Bydd data ar lefel busnes yn cael ei wneud yn ddienw ac ni fydd yn cael ei rannu y tu allan i Lywodraeth y DU.

Blwch testun rhydd

Lle i ychwanegu atodiadau

Categoreiddio Cynnyrch Bwyd

Mae sawl ffordd o wahaniaethu rhwng cynnyrch bwyd: er enghraifft, yn ôl lefel y prosesu, y cynhwysion, y math o ddeunydd pacio, y dull paratoi, gan bwy maen nhw'n cael eu gwerthu neu i ble maen nhw'n cael eu gwerthu. At ddibenion y cais hwn am dystiolaeth, rydym wedi rhannu cynnyrch bwyd sy'n cynnwys cig, wyau a llaeth yn dri chategori bras:

1. **Cig, wyau a llaeth heb ei brosesu** a werthir drwy siopau, yn ogystal â busnes i fusnes.
2. **Cynnyrch wedi'i brosesu sydd wedi'i becynnu'n barod** sy'n cynnwys cig, wyau a llaeth ac sy'n cael eu gwerthu drwy siopau neu arlwyo torfol.
3. **Bwyd wedi'i baratoi sy'n cael ei werthu drwy arlwyo torfol:** mae hwn yn cwmpasu bwyd sy'n cynnwys cig, wyau a llaeth sy'n cael ei baratoi gan arlwywyr torfol naill ai fel bwyd rhydd neu fel bwyd wedi'i becynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

Cig, wyau a llaeth heb eu prosesu

Dim ond ar gyfer cig dofednod heb ei brosesu (gwirfoddol) ac wyau (gorfodol) y mae'r rheoliadau labelu cyfredol ar gyfer lles anifeiliaid. Gellid ehangu'r rhain i gynnwys rhai mathau o gig, wyau a llaeth, neu bob un ohonynt, er mwyn gwella hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd cynhyrchion lles uwch.

Cwestiwn 35: Beth fyddai'r effaith pe bai'r labelu gorfodol presennol yn cael ei ehangu i ddangos lles yr holl gig, wyau a llaeth heb eu prosesu, boed y rheini wedi'u mewforio neu wedi'u cynhyrchu'n ddomestig? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy fyddai'n cael eu heffeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fo hynny ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n

cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fyddech cystal â theilwra eich ymateb. Gall fod yn ddefnyddiol diffinio a chynllunio cyfres o dybiaethau, fel sut y gallai set o safonau lles edrych ar gyfer anifail penodol.

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Cwestiwn 36: Sut byddai'r effeithiau'n amrywio rhwng mathau o gig, wyau a llaeth heb eu prosesu? (Er enghraifft: cig oen, cig eidion, cyw iâr, porc, wyau, llaeth, cig dofednod arall)

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd:*

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Rydym yn deall y gall newidiadau i labeli fod yn gostus ac mae gennym ddiddordeb mewn gwybod sut y gellir lleihau costau, er enghraifft, caniatáu digon o amser i arwain i mewn fel y gellir newid labeli fel rhan o'r cylch cynnyrch arferol.

Cwestiwn 37: I ba raddau y gellid lleihau unrhyw effeithiau negyddol yn sgil newid labeli, a sut?

Blwch testun rhydd

Cynnyrch wedi'i Brosesu ac wedi'i Becynnu'n Barod

Mae'r Arolwg Bwyd Teulu diweddaraf yn dangos bod tua 44% o wariant ar gynnrych cig ar eitemau wedi'u prosesu[7]. Gallai labelu'r rhain wella hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd cynnyrch lles uwch. Fodd bynnag, mae labelu'r cynhyrchion hyn yn ychwanegu cymhlethdod oherwydd gallant gynnwys mwy nag un cynhwysyn, neu gynhwysyn sy'n dod o sawl ffynhonnell. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cael eu gwneud heddiw, er enghraifft mae rhai eitemau ham mewn marchnadoedd yn y DU yn cynnwys logo'r Tractor Coch, ac mae [logo Beter Leven](#), sef cynllun sicrwydd yn yr Iseldiroedd, i'w weld ar brydau parod. Yn 2017, cyflwynodd Ffrainc labeli gwlad tarddiad gorfodol ar gyfer cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n cynnwys o leiaf 8% o gig a 50% o laeth. Mae'r rheoliadau olrhain presennol eisoes yn mynnu bod yr holl gynhwysion sy'n cael eu defnyddio mewn swp yn cael eu cofnodi a bod modd eu holrhain.

Ar gyfer y cais hwn am dystiolaeth, rydym yn gwahaniaethu rhwng tri chategori eang o gynhyrchion wedi'u prosesu sydd wedi'u pecynnu'n barod, sef:

4. yn cael eu prosesu'n gynnil gyda chig, wy neu laeth fel y prif gynhwysyn, er enghraifft, iogwrt, caws, bacwn, neu frest cyw iâr wedi'i goginio
5. cynnwys cig, wyau a/neu laeth fel [prif gynhwysyn](#), er enghraifft, cig eidion mewn pastai stêc
6. cynnwys cig, wyau a/neu laeth fel cynhwysion eilaidd, er enghraifft, wy mewn cacen.

Cwestiwn 38: Yng nghwestiwn 35, gofynnwyd beth fyddai effeithiau cyflwyno labeli gorfodol i ddangos lles yr holl, gig, wyau a llaeth heb eu prosesu a fewnforir ac a gynhyrchir yn ddomestig.

Sut byddai'r effaith yn wahanol pe bai hyd a lled y labelu'n cael ei ehangu i gynnwys cynhyrchion wedi'u prosesu sydd wedi'u pecynnu'n barod ac sy'n cael eu prosesu'n gynnil gyda chig, wy neu lefrith fel y prif gynhwysyn? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy fyddai'n cael eu heffeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol lle bo ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fyddech cystal â theilwra eich ymateb. Efallai y byddwch am ddewis cynnyrch penodol fel enghraifft.

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*:

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Cwestiwn 39: O'i gymharu â Chwestiwn 38 sut fyddai'r effaith yn wahanol petai hyd a lled y labelu yn cael eu heangu i gynnwys cynhyrchion wedi'u prosesu sydd wedi'u pecynnu'n barod ac sy'n cynnwys cig, llaeth a/neu wyau fel [prif gynhwysion](#)? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy sy'n cael ei effeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fo hynny ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fyddech cystal â theilwra eich ymateb. Efallai y byddwch am ddewis cynnyrch penodol fel enghraifft.

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*:

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Cwestiwn 40: O'i gymharu â Chwestiwn 39, sut byddai'r effaith yn wahanol petai hyd a lled y labelu yn cael eu heangu i gynnwys cynhyrchion wedi'u prosesu sydd wedi'u pecynnu'n barod ac sy'n cynnwys cig, llaeth a/neu wyau fel cynhwysion eilaidd? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy sy'n cael ei effeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fo hynny ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fydddech cystal â theilwra eich ymateb. Efallai y byddwch am ddewis cynnyrch penodol fel enghraifft. Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd* Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Rydym yn deall y gallai gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion wedi'u prosesu effeithio ar y gadwyn gyflenwi, yn enwedig os yw'r rhain wedi'u dylunio'n wael. Er enghraifft, oherwydd bod y galw am wahanol ddarnau o gig yn amrywio, gall gweithgynhyrchwyr ddefnyddio cyw iâr o systemau dan do a systemau maes o fewn pei cyw iâr. Mae hyn yn helpu i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng carcasau. Gallai didoli cyw iâr i'w brosesu yn ôl ei ddull cynhyrchu fod yn gostus iawn ac yn wastraffus. Er mwyn osgoi hyn, gallai rheoliadau labelu, er enghraifft, fynnu bod y label yn seiliedig ar y safon lles isaf mewn swp. Hoffem ddeall mwy am yr effeithiau y gallai labelu eu cael ar y gadwyn gyflenwi a sut y gellid lleihau'r rhain drwy ddylunio polisi da heb beryglu'r wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr.

Cwestiwn 41: I ba raddau y gellid lleihau'r effeithiau hyn ar y gadwyn gyflenwi:

- a) Petai rheoliadau labelu ar gyfer cynhyrchion wedi'u prosesu yn cael eu cyflwyno ychydig flynyddoedd ar ôl y rhai ar gyfer cynhyrchion heb eu prosesu, er mwyn rhoi amser i farchnadoedd lles uwch ddatblygu
- b) Petai safonau lles ar gyfer cynhwysyn penodol yn cael eu dyrannu ar sail y safon isaf o les anifeiliaid mewn swp, gan atal yr angen am wahanu
- c) Petai'r label ddim ond yn arddangos safon lles un cynhwysyn lle'r oedd cynnyrch wedi'i brosesu yn cynnwys mwy nag un math o gig, wy, a llaeth.

Cod unigol: wedi lleihau'n sylweddol -- wedi'i leihau'n rhannol -- dim effaith

Pam? *Blwch testun rhydd* (ar gyfer pob un)

Cwestiwn 42: A oes ffyrdd eraill y gellid lleihau'r effeithiau hyn ar y cadwyni cyflenwi? Sut?

Testun rhydd

Bwyd wedi'i baratoi sy'n cael ei werthu drwy arlwyfaeth dorfol

Roedd y farchnad bwyta allan yn gyfrifol am £66bn (39%⁸) o'r gwariant ar fwyd, a 11%⁹ o'r ynni a ddefnyddiwyd yn 2015. Fodd bynnag, efallai fod llai o dryloywder ar gael i ddefnyddwyr ynghylch safonau lles anifeiliaid bwyd a brynir yn y cyd-destun hwn¹⁰, felly rydym yn edrych ar sut y gellid darparu'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr. Gan ei bod yn llai syml 'labelu' bwyd wedi'i baratoi na bwyd wedi'i becynnu, rydym hefyd yn ystyried ymyriadau eraill yn y farchnad, fel datgelu gorfodol, a allai wella hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd cynhyrchion lles uwch. Mae arlwywyr mawr, fel bwytai, yn gwerthu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr tra bo eraill dan gontract i ddarparu bwyd gan sefydliad arall, megis prydau mewn ysbytai neu ddigwyddiadau corfforaethol. Hoffem ddeall sut y gall effaith unrhyw ddiwygiadau effeithio ar y gwahanol leoliadau lle mae defnyddwyr yn bwyta allan, er enghraifft, cinio mewn bwyty, cinio yn yr ysgol, neu fwffe mewn priodas. Er mwyn sicrhau atebion cyson i'r cais hwn am dystiolaeth, dylech gymryd y byddai hyn yn berthnasol i fwyd lle mae cig, wyau a llaeth yn [brif gynhwysyn](#), e.e. cyw iâr mewn cinio rhost, porc mewn rhôl selsig, wy mewn brechdan mayonnaise wy.

Ymgynghorir ar newidiadau i Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer Gwasanaethau Bwyd ac Arlwygo ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae'r safonau hyn yn orfodol i lywodraeth ganolog a'u hasiantaethau gweithredol, gan gynnwys y GIG, y lluoedd arfog a charchardai yn Lloegr. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cynnig bod yn rhaid i bob bwyd fodloni, neu mewn rhai manau fynd y tu hwnt i, reoliadau lles sylfaenol y DU.

***Cwestiwn 43: Wrth fwyta allan, pa rwystrau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu wrth ddewis bwyd sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd ar les anifeiliaid? Sut gellir goresgyn y rhain?** Rhowch dystiolaeth ategol Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth sy'n mesur argaeledd gwybodaeth les neu ddewisiadau lles uwch.

Blwch testun rhydd

***Cwestiwn 44: Pa rwystrau y mae arlwywyr torfol yn eu hwynebu wrth ddarparu gwybodaeth am les ac opsiynau lles uwch i ddefnyddwyr? Sut gellir goresgyn y rhain?**

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 45: Pa un o'r dewisiadau canlynol ydych chi'n meddwl allai fod yn addas ar gyfer nodi safonau lles yn y sector arlwygo? Dewiswch hyd at 3 y byddech o'u plaid

1. Labelu'r safon lles yn orfodol yn y man gwerthu, e.e. ar y fwydlen
2. Datgelu'n orfodol y safonau lles sydd ar gael ar gyfer pob cynnyrch, e.e.: rhaid i wybodaeth lles fod ar gael ar gais
3. Datgelu safonau lles yn orfodol ar grynswth, e.e.: mae'r wefan yn nodi canran y cyw iâr a ddaw o systemau maes
4. Labelu'r safon lles yn wirfoddol, gan ddefnyddio termau marchnata a ddiffinnir yn y gyfraith
5. Sgôr ar gyfer pob arlwywr torfol yn seiliedig ar eu safonau lles
6. Dim camau pellach a defnyddio'r datgeliadau gwirfoddol presennol.

Pam? Rhowch dystiolaeth ategol

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 46: Rydym eisoes wedi gofyn beth fyddai effeithiau cyflwyno labeli gorfodol i ddangos safonau lles yr holl gig, wyau a llaeth sydd wedi'u mewnforio a'u cynhyrchu'n ddomestig ac sydd *heb eu prosesu*.

Sut byddai'r effeithiau'n wahanol pe bai'n rhaid i'r sector arlwyo ddatgelu safonau lles cig, llaeth ac wyau a brynir? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy allai gael eu heffeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fo hynny ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fydddech cystal â theilwra eich ymateb.

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Cwestiwn 47: O gymharu â'r datgeliad gorfodol, sut byddai'r effaith yn wahanol petai rhaid labelu bwyd sy'n cynnwys cig, llaeth ac wyau fel [prif gynhwysion](#) e.e. ar fwydlenni? Rhowch fanylion pob math o effaith (gadarnhaol neu negyddol), maint yr effaith, cost/buddion cysylltiedig a phwy sy'n cael ei effeithio, gan ddarparu tystiolaeth ategol pan fo hynny ar gael. Hoffem ddeall sut mae'r effeithiau'n amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau. Os ydych chi'n cynrychioli neu'n gweithredu mewn sector neu grŵp penodol, a fydddech cystal â theilwra eich ymateb.

Defnyddwyr: *Blwch testun rhydd*

Y Diwydiant Bwyd: *Blwch testun rhydd*

Ffermwyr: *Blwch testun rhydd*

Anifeiliaid: *Blwch testun rhydd*

Monitro a Gorfodi

Pe bai rheoliadau labelu newydd ar gyfer lles anifeiliaid yn cael eu cyflwyno, byddai angen dull teg a chymesur o wirio bod cynnyrch yn cynnwys y label cywir a bod yr anifeiliaid wedi cael eu cynhyrchu i'r safon lles ddisgwyliedig. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch ac ymddiriedaeth defnyddwyr i gynhyrchwyr. Rydym yn awyddus i ddeall y gwahanol ffyrdd y gallem wneud hyn, gan gynnwys sut i wirio mewnfurion a chynhyrchu domestig ac ar ba bwynt yn y gadwyn fwyd. Mae hyn yn cynnwys ystyried pwy sydd â rôl mewn monitro a gorfodi, a allai gynnwys awdurdodau lleol, cyrff y llywodraeth, awdurdodau porthladdoedd, cynlluniau sicrwydd fferm a busnesau bwyd a sut y gallwn weithio gyda phartneriaid masnachu newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, yr UE sy'n bwriadu cyflwyno label lles anifeiliaid safonol.

Cwestiwn 48: Beth yw'r prif ystyriaethau wrth ddylunio trefn fonitro a gorfodi i wirio labeli ar gyfer lles anifeiliaid?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 49: Pa gyfundrefnau monitro a gorfodi sy'n bodoli eisoes ac a allai osod cynsail, neu gael eu haddasu i ymgorffori unrhyw ofynion newydd? Ystyriwch nifer o bwyntiau yn y gadwyn gwerth bwyd.

Blwch testun rhydd

Rydym yn cydnabod y rôl sylweddol y mae cynlluniau sicrwydd ffermydd y DU eisoes yn ei chwarae o ran cynhyrchu cig, wyau a llaeth yn ddomestig, a hoffem ddeall beth fyddai'r ffordd orau o fanteisio ar hyn pe bai unrhyw ddiwygiadau labelu'n cael eu cyflwyno. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn archwilio sut y gallai achredu sicrhau safonau lles cig, wyau a llaeth a fewnforir. Er enghraifft, gallem gydnabod cynlluniau sicrwydd rhyngwladol sy'n bodloni, neu'n rhagori ar, ein rheoliadau lles sylfaenol yn y DU.

Cwestiwn 50: Pa rôl allai cynlluniau sicrwydd ffermydd y DU ei chwarae o ran dilysu label sy'n nodi safonau lles?

Blwch testun rhydd

Cwestiwn 51 Pa rôl allai achredu ei chwarae o ran sicrhau safonau lles mewnfurion?

Blwch testun rhydd

Cyd-fynd â Diwygio Labelu Bwyd yn Ehangach

Yn ogystal ag ystyried sut gallai labelu ddangos safonau lles anifeiliaid, rydym hefyd yn edrych ar agweddau eraill ar label (termau neu ddelweddau marchnata) sy'n gysylltiedig â tharddiad ac ansawdd cig, wyau a llaeth. Gall defnyddwyr ddefnyddio rhai ohonynt fel amcangyfrif o les anifeiliaid. Mae defnyddwyr yn cael eu gwarchod gan reoliadau presennol sy'n datgan na ddylai gwybodaeth am fwyd fod yn gamarweiniol, gan gynnwys mewn perthynas â'r dull cynhyrchu. Er bod modd defnyddio canllawiau, cyfraith achosion neu ymchwil i gyfleu hyn, dyfarniad fesul achos yw hyn yn y pen draw. Er enghraifft, gall termau marchnata ar labeli fel 'wedi'u bwydo ar laswellt' fod â diffiniadau amrywiol rhwng manwerthwyr. Mae cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y diwydiant, fel Quality Meat Scotland a Pasture for Life, yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Gallai Llywodraeth y DU gyflwyno safonau marchnata newydd sy'n ymwneud â tharddiad neu ansawdd cig, wyau a llaeth er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder. Byddai'n wirfoddol ei labelu fel hyn ond petai'r termau hyn yn cael eu defnyddio, byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r diffiniad cyfreithiol safonol.

Cwestiwn 52: A oes termau marchnata nad ydynt yn ymwneud â lles ac sy'n ymwneud â tharddiad neu ansawdd cig, wyau, a llaeth, yr hoffech eu gweld yn cael eu diffinio yn ôl y gyfraith ond yn wirfoddol i'w defnyddio?

Oes – Nac oes

Os oes, pa dermau a pham?

Blwch testun rhydd

Mae defnyddwyr hefyd yn defnyddio delweddau neu frandio cynnyrch ar becynnau wrth asesu tarddiad ac ansawdd cig, wyau a llaeth, neu gynhyrchion sy'n eu cynnwys. Er enghraifft, gallai brand damcaniaethol fel 'Chalk Down Farm' awgrymu i ddefnyddwyr bod y cynnyrch yn dod o'r DU a/neu'n cael ei gynhyrchu'n lleol.

Cwestiwn 53: A oes unrhyw enghreifftiau o frandio neu ddelweddau cynnyrch ynghylch tarddiad ac ansawdd cig, wyau, a llaeth a allai fod yn gamarweiniol yn eich barn chi? Rhowch enghreifftiau ac atodwch luniau neu ddolenni gwe os ydynt ar gael.

Blwch testun rhydd

Canlyniadau System Bwyd Eraill

Bydd ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth yn cyfrannu at adolygiad ehangach o labelu bwyd a fydd yn sail i Bapur Gwyn Llywodraeth y DU o Strategaeth Fwyd. Rydym yn ystyried sut y gellid datblygu unrhyw ddiwygiadau labelu ar gyfer lles anifeiliaid er mwyn gweithio orau ochr yn ochr â diwygiadau posibl i, er enghraifft, labelu faeth ac eco-labelu.

O safbwynt defnyddwyr, gallai fformat label tebyg ei gwneud yn *haws* i ddefnyddwyr ddarllen labeli bwyd, er enghraifft, defnyddio graddfa. O safbwynt busnes, gallai gofynion olrhain cyffredin a mecanweithiau gorfodi leihau'r baich ar ddiwydiant, er enghraifft.

Cwestiwn 54: Sut gellid dylunio dull labelu clir a chyson yn y ffordd orau er mwyn ystyried lles anifeiliaid ochr yn ochr â labeli eraill fel labeli maeth ac eco-labelu?

Ystyriwch hyn o safbwynt defnyddwyr a busnesau, ac amlinellwch yr heriau a'r cyfleoedd rydych chi'n eu gweld ar gyfer pob un.

Safbwynt defnyddiwr: *Blwch testun rhydd*

Safbwynt busnes: *Blwch testun rhydd*

Mae cynhyrchu bwyd yn cael effaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys cynhyrchu â'r da byw ar y fferm, prosesu a chludiant. Rydym yn ystyried a oes rôl i eco-labelu wrth gyflawni nodau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y rhai sydd yn y Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd a Sero Net erbyn 2050, ac a ellid cysoni hyn â'n polisi amaethyddiaeth domestig newydd. Bydd ein cynlluniau ffermio newydd ar gyfer y dyfodol yn gwobrwyo ffermwyr sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol ac iechyd a lles anifeiliaid. Hoffem gael eich barn gychwynnol ar sut y gellid dod â safonau lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol ynghyd, pe baem yn cyflwyno diwygiadau labelu ar gyfer y naill a'r llall.

Cwestiwn 55: Beth yw eich barn am:

- a) Label sy'n seiliedig ar set o safonau cynhyrchu ar y fferm sy'n cynnwys meini prawf lles a chynaliadwyedd ar gyfer cynhyrchu da byw.
- b) Labeli ar wahân, gydag un yn seiliedig ar set o safonau lles, a'r llall yn seiliedig ar yr effaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys ar y fferm
- c) Cynllun sicrwydd sy'n gosod safonau sy'n seiliedig ar i ba raddau y mae fferm yn cymryd rhan yn ein cynlluniau ffermio newydd yn y dyfodol ac sy'n sicrhau canlyniadau iechyd a lles yr amgylchedd ac anifeiliaid.

Blwch testun rhydd (ar gyfer pob un)

Ymatebwyr Cymraeg

Mae'r arolwg Gofod Dinasyddion ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl i chi ddefnyddio'r Gofod Dinasyddion i ddarparu ymatebion yn Gymraeg, gan ddefnyddio'r cais am dystiolaeth yn Gymraeg fel canllaw os oes angen.

Neu, gallwch anfon eich ymateb atom drwy e-bost i: welfare.label@defra.gov.uk.

Gallwch chi hefyd anfon eich ymateb drwy'r post i:

Labelling for Animal Welfare
Consultation Coordinator, Defra
2nd Floor, Foss House,
Kings Pool,
1-2 Peasholme Green,
York, YO1 7PX.

Daw'r cais am dystiolaeth i ben ar 6 Rhagfyr 2021. Sylwch na fyddwn yn gallu dadansoddi ymatebion a ddaw i law yn hwyrach na'r dyddiad hwn.

Ffynonellau:

1. Special Eurobarometer 442; Attitudes of Europeans towards animal welfare (2015)
2. Kehlbacher, R. Bennett, K. Balcombe (2012), Measuring the consumer benefits of improving farm animal welfare to inform welfare labelling, *Food Policy*, 37(6), pp627-633
3. Based on prices from Sainsburys, Asda and Morrison's (2021).
4. Which? (2020), [Consumer Food Standards Survey](#) (2112 adults surveyed and weighted to be representative of UK consumers by age, gender, and region)
5. Kantar (2018), EU Food Information to Consumers, Report for Defra: FA0169, June 2018
6. HMRC – Trade Data, [UK Trade Information](#) – 2017- 2019 (average)
7. Defra, [Family Food 2018/19](#)
8. Defra (2020), [Food Statistics in your pocket: Food Chain](#) – 30 Nov
9. Defra (2016), [Food Statistics Pocketbook](#)
10. Footprint Intelligence (2017), [Blueprint for better ethical storytelling in foodservice](#)